CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Adroddiad Blynyddol gan Gynghorydd

Hwn yw'r adroddiad gan y Cynghorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

**Cynghorydd:** **Aled Morris Jones** **Ward: Twrcelyn**
**Plaid:** **Democratiaid Rhyddfrydol Cymru**

## Rôl a Chyfrifoldebau

Ers Mai 2013 rwyf wedi bod yn Aelod o Bwyllgor Gwaith y Cyngor a Deilydd Portffolio Datblygu Economaidd.

| **Rhwng Mai 2013 a Mawrth 2014, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:** | *** Ffigyrau Presenoldeb (darparwyd gan CSYM)** |
|---|---|
| Penodiadau | 3 (37) |
| Cyngor | 13 (100%) |
| Pwyllgor Gwaith | 12 (100%) |
| * Mae'r ystadegau a ddarperir yn berthnasol yn unig i'r pwyllgorau a restrir yn y tabl hwn. Nid yw'r ystadegau'n cynnwys presenoldeb mewn cyfarfodydd eraill sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir. | |

Rwyf yn Is-Gadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn sydd wedi dosbarthu dros £500,000 y flwyddyn i ddefnydd cymunedol

Y fi hefyd yw Eiriolwr penodedig y Cyngor ar gyfer y Lluoedd Arfog

Rwy'n cynrychioli'r Cyngor ar yr isod:
Fforwm Economaidd Gogledd Cymru
Grŵp Cyswllt Prosiect Horizon Nuclear
Menter Môn
Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru
Grŵp Cydranddeiliaid Safle Wylfa

## Gweithgareddau yn yr Etholaeth

Bu modd i etholwyr gysylltu â mi naill ai'n bersonol, dros y ffôn neu drwy e-bost ynghylch amrediad eang o faterion ac rwyf wedi bod yn ymgynghori gyda phartneriaid y Cyngor yn ddyddiol ynghylch nifer o faterion. Rwyf wedi mynychu cyfarfodydd misol o Gyngor Cymuned Rhosybol (fel Aelod) a hefyd Cyngor Tref Amlwch, Cyngor Cymuned Llaneilian a Chyngor Cymuned Llanbadrig. Rwyf hefyd yn llywodraethwr yn ysgolion cynradd Rhosybol a Phenysarn.

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Rwyf wedi rhoi cymorth i etholwyr ar nifer o faterion lleol ac, ynghyd â'r ddau Aelod arall ar gyfer Ward Twrcelyn, rwyf wedi bod yn rhoddi sylw i broblemau mewn perthynas â diogelwch ar y ffyrdd yn fy etholaeth. Un broblem benodol oedd yr angen i roi sylw i fesurau arafu traffig yn Amlwch a Rhosybol ynghyd â gwella'r ffordd o Gemaes i Amlwch yn wyneb y datblygiad arfaethedig Wylfa Newydd. Rwyf hefyd wedi bod yn gweithio gyda gwirfoddolwyr i ddatblygu Canolfan I Ymwelwyr yng Nghemaes.

**Dysgu a Datblygu**

| **Rwyf wedi mynychu'r mentrau dysgu a datblygu canlynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (gwybodaeth wedi'i darparu gan CSYM):** | |
|---|---|
| Rhagarweiniad i'r Gwasanaeth Cymorth i Aelodau | Mai 2013 |
| Fframwaith Moesegol | Mai 2013 |
| Yr Iaith Gymraeg/Diogelu Data, Y Wasg a'r Cyfryngau | Mai 2013 |
| Hyfforddiant Cofrestru Diddordebau | Mai 2013 |
| Asesu Anghenion Datblygu ar gyfer Aelodau | Mehefin 2013 |
| Sesiwn 2 ar gyfer y Pwyllgor Gwaith | Gorffennaf 2013 |
| Sesiwn 3 ar gyfer y Pwyllgor Gwaith | Gorffennaf 2013 |
| Sesiwn 4 ar gyfer y Pwyllgor Gwaith | Gorffennaf 2013 |
| Sesiwn 5 ar gyfer y Pwyllgor Gwaith | Awst 2013 |
| Gwneud i Gyfryngau Cymdeithasol Weithio i Gynghorwyr | Medi 2013 |
| Sesiwn 6 ar gyfer y Pwyllgor Gwaith | Medi 2013 |
| Prince 2 – Hyfforddiant i Aelodau'r Byrddau | Rhagfyr 2013 |
| Sesiwn 3 – Pwyllgor Gwaith Cysgodol/Uwch Arweinwyr | Ionawr 2014 |

**Gweithgareddau a Materion Eraill**

Rwyf wedi mynychu sawl cyfarfod yn ystod y flwyddyn fel yr Aelod Portffolio ar gyfer Datblygu Economaidd, Twristiaeth a Hamdden ac wedi mynychu cyfarfodydd ymgynghori mewn perthynas â Datblygiad Wylfa Newydd. Rwyf hefyd wedi gweithio gyda nifer o sefydliadau er mwyn gwella cyflymder band eang ar yr Ynys. Yn ystod y flwyddyn, ildiais Gadair Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. Fel yr Eiriolwr ar gyfer y Lluoedd Arfog, mynychais gyfarfodydd gyda nifer o sefydliadau er mwyn datblygu rhaglenni gwaith a fyddai'n cefnogi Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog. Wedi hyn wedi cynnwys mynychu cynadleddau Cenedlaethol a drefnwyd gan Lywodraeth Cymru a'r Swyddfa Gartref. Yn ogystal, cyflwynais Rybudd o Gynigiad (a gymeradwywyd) i'r Cyngor yn Rhagfyr 2013 - yn caniatáu Rhyddid y Sir i'r Llynges Frenhinol a Chymdeithas y Llynges Fasnachol i goffáu'r Rhyfel Mawr 1914-18 a 70 o flynyddoedd ers Brwydr Môr Iwerydd.

**Councillor Aled Morris Jones** **Ebrill 2014**